YOUTH WITHOUT LIMITS

EXPEDFEST

Plas y Brenin | North Wales

Friday 19th – Sunday 21st March 2027

Expedition Training for DofE Leaders

ExpedFest is our annual training event where Leaders come together from across Wales to learn new outdoor and Expedition skills.

The event will be based in the beautiful Snowdonia National Park at **Plas y Brenin** the National Mountain Centre and will start at 6pm on Friday 19th March. Courses begin at 9am the following day.

Whether you are new to DofE, or a seasoned DofE Leader, take your pick of one of the great training opportunities we have on offer, including:

- **Hills Skills** (completing this course allows you to join a Lowland Leader training course without recording the usual 10 varied walks)
- **16hr REC Outdoor First Aid**
- **Lowland Leader Training**
- **Lowland Leader Assessment**
- **Hil and Moorland Training** (to finish at 5pm Monday 22nd March)
- **Hill and Moorland Assessment** (to finish at 5pm Monday 22nd March)





Food & Accommodation

Accommodation, breakfast, lunch, evening meals and afternoon refreshments are included in the delegate price for this event.

Accommodation consists of **shared** rooms with an en-suite; if you are attending ExpedFest with a colleague or someone you know, you can request to be roomed with them in the application form.

Courses

All Mountain Training courses have prerequisites; these can be seen **on the next page. Please check that you meet these requirements prior to booking.**

You should also check with your Licenced Organisation that the qualification you intend to undertake is recognised and appropriate for the areas you wish to operate in.

Cost

The cost of this training event is heavily subsidised thanks to DofE Wales's financial supporters. The true cost per person is over £300. **The fee can be paid by yourself, or by your organisation.**

COURSE INFORMATION

Hill Skills - £100

- There are no prerequisites for this course.

16hr REC Outdoor First Aid - £160

- There are no prerequisites for this course.

Lowland Leader Training - £130

- You must be at least 17 years old to attend this course.
- You should have an interest in leading groups in Lowland countryside.
- **You must register** on the scheme with Mountain Training Cymru. (£69 payable to Mountain Training)
- You must have recorded a minimum of 10 varied walks in Lowland terrain. **OR** have previously attended a Mountain Training Hill Skills course.





Lowland Leader Assessment - £130

- You must be at least 18 years old.
- You must have attended a Lowland Leader Training course.
- You must be familiar with the **syllabus**.
- You must have logged a minimum of 20 walks in lowland countryside.
- You must have attended a 16h First Aid course prior to assessment.

Hill and Moorland Leader Training - £230

- You must be at least 18 years old.
- You should have at least a year's worth of experience of hill walking.
- You should have an interest in leading groups in the hills.
- You must have recorded a minimum of 20 quality hill days.
- You **must** be a member of a mountaineering council: BMC, Mountaineering Scotland or Mountaineering Ireland. **Find out why here** (approximately £56 per year).
- You **must** Register for the Hill and Moorland Leader scheme (this currently costs £69).

Hill and Moorland Leader Assessment - £230

- You must be at least 18 years old.
- You must have completed a Hill and Moorland Leader training course (or a Mountain Leader training course)
- You must be familiar with the syllabus.
- You must have recorded a minimum of 40 quality hill days in at least three upland areas of the UK or Ireland.
- You must have physically attended and completed (i.e. not online) a first aid course which involved at least two full days or sixteen hours of instruction and included an element of assessment.

The Duke of Edinburgh's Award is a Registered Charity No: 1072490, and in Scotland No: SC038254, and a Royal Charter Corporation No: RC0008061.

IEUENCTID HEB GYFYNGIADAU

EXPEDFEST

Plas y Brenin | Gogledd Cymru

Dydd Gwener 19 – Dydd Sul 21 Mawrth 2027

Hyfforddiant Alldeithiau i Arweinwyr DofE

ExpedFest yw ein digwyddiad hyfforddi blynyddol, lle mae arweinwyr o bob cwr o Gymru'n dod ynghyd i ddysgu sgiliau alltaith ac awyr agored newydd.

Bydd y digwyddiad wedi'i leoli yng nghanol harddwch Parc Cenedlaethol Eryri, yng Nghanolfan Fynydd Genedlaethol Plas y Brenin. Mae costau llety, bwyd a hyfforddiant wedi'u cynnwys yng nghost y penwythnos, sydd wedi'i noddi diolch i'n harianwyr a'n cefnogwyr hael.

P'un a ydych newydd ymuno â DofE, neu'n Arweinydd DofE ers peth amser, dewiswch o blith y cyfleoedd hyfforddi gwych sydd ar gael:

- **Sgiliau ar y Bryniau** (mae cwblhau'r cwrs yma yn golygu gallwch ymuno â chwrs Hyfforddiant Arweinydd Iseldir heb gofnodi'r 10 taith gerdded amrywiol fel sy'n arferol)
- **Cymorth Cyntaf Awyr Agored 16 awr REC**
- **Hyfforddiant Arweinydd Iseldir**
- **Asesiad Arweinydd Iseldir**
- **Hyfforddiant Arweinydd Bryniau a Rhostiroedd** (gorffen am 5yh Dydd Llun 22ain Mawrth)
- **Asesiad Arweinydd Bryniau a Rhostiroedd** (gorffen am 5yh ar Dydd Llun 22ain Mawrth)





Bwyd a Llety

Mae costau llety, brecwast, cinio, prydau gyda'r nos a lluniaeth a chacen yn y prynhawn, wedi'u cynnwys yn y ffi i gymryd rhan yn y digwyddiad hwn.
Mae llety yn cynnwys **ystafelloedd a rennir** gydag en-suite, os ydych chi'n mynychu ExpedFest gyda chydweithwyr neu rywun rydych chi'n ei adnabod, gallwch wneud cais i fod yn yr un ystafell ar y ffurflen gais.

Cyrsiau

Mae yna ragofynion ar gyfer yr holl gyrsiau Hyfforddiant Mynyddoedd, gellir gweld y rhain ar y dudalen nesaf. Gwiriwch eich bod yn bodloni'r gofynion hyn cyn cofrestru. Dylech hefyd wirio gyda'ch Sefydliad Trwyddedig bod y cymhwyster rydych yn bwriadu ei gwblhau yn cael ei gydnabod ac yn briodol ar gyfer y meysydd rydych yn dymuno gweithredu ynddynt.

Cost

Mae cost yr hyfforddiant wedi'i noddi'n hael diolch i gefnogwyr ariannol DofE Cymru. Mae'r gwir gost y pen yn fwy na £300. **Gallwch dalu'r ffi eich hun, neu gall eich sefydliad dalu ar eich rhan.**

GWYBODAETH AM Y CYRSIAU

Sgiliau ar y Bryniau - £100

- Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn.

Cymorth Cyntaf Awyr Agored 16 awr REC - £160

- Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn.

Hyfforddiant Arweinydd Iseldir - £130

- Rhaid ichi fod yn 17 mlwydd oed o leiaf i fynychu'r cwrs hwn.
- Dylech fod â diddordeb mewn arwain grwpiau ar Iseldir gwledig.
- Rhaid ichi gofrestru ar y cynllun gyda Mountain Training Cymru.

(£69 yn daladwy i Mountain Training)

- Rhaid ichi fod wedi cofnodi o leiaf 10 taith gerdded amrywiol ar Iseldir.

NEU fod wedi mynychu cwrs Sgiliau Bryniau Mountain Training yn flaenorol.





Asesiad Arweinydd Iseldir - £130

- Rhaid ichi fod yn 18 mlwydd oed o leiaf.
- Rhaid ichi fod wedi mynychu cwrs Hyfforddiant Arweinydd Iseldir yn flaenorol.
- Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r **maes llafur.**
- Rhaid ichi fod wedi cofnodi o leiaf 20 taith gerdded ar iseldir gwledig.
- Rhaid ichi fod wedi mynychu cwrs cymorth cyntaf 16 awr cyn ymgymryd â'r asesiad.

Hyfforddiant Arweinydd Bryniau a Rhostiroedd - £230

- Rhaid ichi fod yn 18 mlwydd oed o leiaf.
- Dylai fod gennych o leiaf gwerth blwyddyn o brofiad o gerdded bryniau
- Dylech fod â diddordeb mewn arwain grwpiau ar y bryniau
- Rhaid ichi fod wedi cofnodi o leiaf 20 taith gerdded o safon ar fryniau.
- **Rhaid** ichi fod yn aelod o gyngor mynydda: BMC, Mountaineering Scotland neu Mountaineering Ireland. **Dysgwch pam yma** (oddeutu £56 y flwyddyn)
- **Rhaid** ichi gofrestru ar gyfer y cynllun Arweinydd Bryniau a Rhostiroedd (mae hyn yn costio £69 ar hyn o bryd)

Asesiad Arweinydd Bryniau a Rhostiroedd - £230

- Rhaid ichi fod yn 18 mlwydd oed o leiaf.
- Rhaid ichi fod wedi cwblhau cwrs hyfforddiant Arweinydd Bryniau a Rhostiroedd (neu gwrs hyfforddiant Arweinydd Mynydd)
- Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r maes llafur.
- Rhaid ichi fod wedi cofnodi o leiaf 40 taith gerdded o safon ar fryniau mewn o leiaf tair ardal o ucheldir yn y DU neu Iwerddon.
- Rhaid ichi fod wedi mynychu a chwblhau (h.y nid ar-lein) cwrs cymorth cyntaf a oedd yn cynnwys o leiaf dau ddiwrnod llawn neu 16 awr o gyfarwyddyd ac yn cynnwys elfen o asesiad.

DE IEUENCTID HEB GYFYNGIADAU

Mae Gwobr Dug Caeredin yn Elusen Gofrestredig Rhif: 1072490, ac yn yr Alban Rhif: SC038254, ac yn Gorfforaeth Siarter Frenhinol Rhif: RC0008061